

Barclodiad y Gawres

Syniadau o'r Oes Neolithig



1 Oes
yr Iâ

Oes

4000 BC

y Cerrig

3000 BC

Yr Oes

2000 BC

Efydd

1000 BC

← blynyddoedd CC

Oes yr

blynyddoedd OC →

Haearn


y Rhufeiniaid ym Mhrydain

Barclodiad
y gawres

HEDDIW



Mae Barclodiad y Gawres yn fedd cyntedd ar yr A4080 rhwng Aberffraw a Rhosneigr. Mae traeth gerllaw'r safle a digon o le parcio i ffwrdd o'r ffordd. Gallwch gyrraedd y safle drwy gerdded am ychydig funudau ar lwybr eithaf rhwydd.



YSGRIFENNwyD A DARLUNIwyD GAN JOHN G. SWIGGER
GOLYGYDD Y GYFRES MARION BLOCKLEY
CYNHYRCHwyD GAN BLOCKLEY DESIGN
CYHOEDDwyD GAN CADW © 2015
CYFIEITHIwyD GAN ALUN GRUFFYDD - BLA TRANSLATION

CADW: PLAS CAREW, UNED 5/7 CEFN COED, PARC NANTGARW, CAERDYDD CF15 7QQ

Barclodiad y Gawres

Syniadau o'r Oes
Neolithig

AR ARFORDIR GORLLEWINOL YNYS MÔN,
AR BENRHYN CREIGIOL YN WYNEBU'R
MŌR, MAE TOMEN O BRIDD.



MAE'N AMLWG UWCHBEN Y TRAETH, LLE
MAE POBL YN CHWARAE YN Y TYWOD,
YN NOFIO AC YN SYRFFIO A PHYSGOTA.

OS EDRYCHWCH Y TU MEWN I'R
DOMEN, FE WELWCH GERRIG YN
SEFYLL YN FERTIGOL MEWN CYLCH...

MAE RHAI O'R CERRIG HYN WEDI EU
NADDU Â FFURFIAU IGAM-OGAM,
CYLCHOEDD A DEIAMWNT.

GYDA CHARREG WASTAD
LAWER IAWN MWY YN
GORWEDD AR EU PENNAU.

PYSGOD? LLYSYWOD?
LLYFFANTOD? MAE'N SWNIO
FEL GWEDDILLION UN O FY
MHRYPDAU BWYD !

DAETH
ARCHAEOLEGWYR O HYD I
RAI ESGYRN DYNOL WEDI LLOSGI
YN Y SIAMBRAU OCHR. GWEDDILLION
DAU DDYN IFANC OEDD Y RHAIN A
GLADDWYD YN Y DOMEN YN YSTOD OES
Y CERRIG.


DAETHANT O HYD I RAI ESGYRN
ANIFEILAD HEFYD, PYSGOD
BACH, LLYSYWOD A LLYFFANTOD.
I DDECHRAU CREDAI'R
ARCHAEOLEGWYR MAI PRYDAU BWYD
ARBENNIG OEDD Y RHAIN YN
GYSYLLTIEDIG Â'R BEDDAU - OND
NID YDYNT MOR SIŪR
GRBYN HYN.

MAE ARCHAEOLEGWYR WEDI AILADEILADU'R
DOMEN I DDANGOS SUT BYDDAI'R CYFAN
WEDI EDRYCH PAN GAFODD EI HADEILADU'N
WREIDDOL. A LLWYDDODD EU GWAITH
CLODDIO I'N HELPŪ I DDEALL STORI'R
SAFLE HYNAFOL HWN.

ADEILADWYD Y DOMEN AR DDIWEDD OES Y CERRIG SEF Y CYFNOD NEOLITHIG YN ÔL YR ARCHAEOLEGWYR, BRON I 5000 O FLYNYDDOEDD YN ÔL.




RHODDIR YR ENW 'OES Y CERRIG' AR Y CYFNOD HWN GAN NAD OEDD POBL BRYD HYNNY'N GWNEUD PETHAU ALLAN O FETEL FEL EFYDD A HAEARN...



YN HYTRACH GWNAETHANT EU HOFFER ALLAN O GERRIG FEL FFLINT A CHORNFAEN.

YN YSTOD Y CYFNOD NEOLITHIG, MAE'N DEBYG Y BYDDAI POBL YNYS MÔN WEDI BYW MEWN PENTREFI BACH AR HYD A LLED YR YNYS AC EFALLAI'N AMGYLCHYNU'R PENTREF Â CHAEAU I DYFU I DYFU CNYDAU A CHADW ANIFEILWAID.

ADEILADWYD BARCLODIAD Y GAWRES GAN Y POPL NEOLITHIG HYN FEL LLE I GLADDU EU MEIRW.



MAE ARCHAEOLEGWYR YN GALW'R MATH HON O DOMEN YN 'FEDD CYNTEDD':

GAN FOD SIAMBRAU MEWNOL Y TU MEWN...

GAN GYRRAEDD Y SIAMBRAU HYN DRWY GYNTEDD HIR.

WRTH EDRYCH AR Y FFORDD YR ADEILADWYD
Y BEDDAU CYNTEDD, BARN ARCHAEOLEGWYR
YW Y CAWSANT EU DEFNYDDIO MEWN RHYW
DDULL ARBENNIG.

O'R TU ALLAN, MAE'R DOMEN YN
HAWDD I'W GWELD O BELL.

BYDDAI HYN YN GWNEUD Y DOMEN
YN LLE PWYSIG - FEL EGLWYS NEU
NEUADD Y DREF HEDDIW.

GWNAETH Y BOBL A ADEILADODD
BARCLODIAD Y GAWRES YN SIŴR FOD POBL
YN MEDRU EI GWELD.

BYDDAI LLAWER IAWN O CYFARFODYDD
YN YMGYNNULL Y TU ALLAN I'R DOMEN
- A BYDDAI PAWB YN MEDRU GWELD Y
BOBL HYN.

BYDDAI BEDD CYNTEDD
FEL BARCLODIAD Y GAWRES
YN LLE ARBENNIG IAWN
AR GYFER Y GYMUNED
GYFAN.

BYDDAI HYN YN EI WNEUD YN LLE DA I GYNNAL
CYFARFODYDD, DAWNSFEYDD A SEREMONIAU.

OND BETH AM Y TU MEWN
I'R BEDD CYNTEDD... ?



UN PERSON AR Y TRO YN UNIG FYDDAI'N
MEDRU MYND I LAWYR Y CYNTEDD. ROEDD
Y NENFWD YN ISEL IAWN A'R CYFAN YN
DYWYLL FEL BOL BUWCH.

HYD YN OED YN Y SIAMBR FEWNOL,
NID OEDD LLAWER O LE.

BYDDECH YN MEDRU MYND Â
FFAGL O OLAU FACH GYDA CHI.

OS OEDD Y TU ALLAN I'R DOMEN YN ADDAS
AR GYFER NIFER FAWR O BOBL, YNA ROEDD
Y TU MEWN YN GYFYNG IAWN AC YN ADDAS
AR GYFER UN AR Y TRO.

MAE HI MOR DYWYLL...

YN WREIDDIOL BYDDAI
TO CERRIG UCHEL YMA.

MAE'R DOMEN WEDI CAEL
EI HOLLTI ER MWYN I CHI
FEDRU GWELD I MEWN.

PRIDD YN GORCHUDDIO TYWYRCH,
A'R CYFAN DROS RIBEL.

SIAMBR OCHR.

YMWELWYR YN UNIG YW'R BOBL
FYW YMA - MAE TU MEWN I'R
DOMEN YN PERTHYN I'R MEIRW :
DYMA WEDDILLION DAU OHONYNT
MEWN SIAMBR OCHR.

EDRYCHWCH! MAE'R CERRIG
O'CH CWMPAS WEDI CAEL
EU NADDU Â PATRYMAU
RHYFEDD.

MAE'R GOLAU GWAN YN ACHOSI
I'R PHATRYMAU SYMUD...

MAE'N ANODD SYMUD
O GWMPAS HEB FEDRU
GWELD YN IAWN.



EFALLAI MAI LLE I'R BYW A'R MEIRW FEDRU CYFARFOD OEDD Y DOMEN.

CRED ARCHAEOLEGWYR Y GALLAI'R DOMEN WEDI BOD YN LLE PWYSIG I BOBL WYBOD LLE CAFODD EU CYNDADAU EU CLADDU...

EFALLAI Y LLWYDDODD Y SYMBOLAU A NADDWYD AR Y CERRIG I WNEUD Y CYSYLLTIADAU HYNNY...

A BOD POBL BWYSIG, YR OFFEIRIAID NEU'R DEWINIAID - YN MEDRU MYND I MEWN I'R BEDD CYNTEDD A CHAEL CYNGOR NEU GYMORTH GAN Y CYNDADAU.

OND MAE ARCHAEOLEGWYR YN CREDU HEFYD Y BU'R BEDDAU CYNTEDD YN BWYSIG GAN EU BOD WEDI CYSYLLTU CYMRU...

AG ARDALOEDD MOR BELL I FFWRDD AG ORKNEY, IWERDDON, LLYDAW A PHORTIWGAL.

LOUGHCREW A NEWGRANGE, BRU NA BOINNE, IWERDDON

MAESHOWE, ORKNEY

CERFIADAU AR Y CALDERSTONES

CALDERSTONES, LERPWL

LE DEHUS, YNYSOEDD Y SIANEL

GAVRINIS, LLYDAW

CARREG WEDI EI NADDU YN NEWGRANGE


BEDD CYNTEDD YN ZAMBUJIERO

ZAMBUJIERO, PORTIWGAL

CARREG WEDI EI NADDU YN GAVRINIS

MAE BARCLODIAD Y GAWRES YN DEBYG IAWN I FEDDAU CYNTEDD SYDD I'W GWELD MEWN MANNAU ERAILL O EWROP. MAE AMRYW O'R SAFLEOEDD NEOLITHIG HYNNY YN CYNWYS CERRIG SYDD WEDI EU NADDU GYDA PHATRYMAU TEBYG IAWN.

OND SUT DDAETH Y SYNIADAU HYN I GYMRU?



EFALLAI Y LLWYDDODD MASNACHWYR
O YNYS MÔN I DEITHIO DROS Y MÔR
I'R IWERDDON AC I ORKNEY.



EFALLAI BOD Y DDAU DDYN IFANC A GLADDWYD
YM MARCLODIAD Y GAWRES WEDI MENTRO'R
MOROEDD HYNNY.

OND DROS FILOEDD O
FLYNYDDOEDD, ANGHOFIODD
POBL AM Y DDAU DDYN IFANC..
AC AM Y
DOMEN.




YMHEN AMSER
EDRYCHODD POBL AR Y
TWMPTH O GERRIG AR
YMYL Y MÔR A CHREU

CHWEDLAU
ANHOGOEL
AMDANYNT...

SUT Y BU I GAWRES
OLLWNG Y CERRIG O'I
BARCLOD!



OND MAE GWIR HANES BARCLODIAD Y
GAWRES YN YMWNEUD Â MASNACHWYR
A CHYNDADAU.



MAE'N HANES SY'N EGLURO SUT Y
LLWYDDODD POBL OES Y CERRIG
YM MÔN I DEITHIO I BELLTEROEDD
EU BYD NHW...

...A DOD Â SYNIADAU NEWYDD
YN ÔL I GYMRU!

Y DIWEDD


A Taith i Ymyl y Byd!

Gêm ar y traeth i ddau neu ragor o chwaraewyr



MENTRICH DROS Y MOROEDD GWYLLT A DOD Â SYNIADAU NEWYDD YN ÔL I YNYS MÔN GAN Y BOBL NEOLITHIG O BELLTEROEDD BYD - OND CADWCH YN GLIR O'R STORMYDD!

- 1 YN GYNTAF, DEWCH O HYD I FFFON A MARCIWCH Y CYLCHOEDD HYN YN Y TYWOD, I GYNRYCHIOLI YNYS MÔN, IWERDDON AC ORKNEY.



- 3 RHOWCH DWMPTH O GERRIG AR BOB UN O'R LLEOLIADAU HEBLAW YNYS MÔN. DYMA'R 'SYNIADAU NEWYDD' Y BYDDWCH YN EU CYFLWYNO I GYMRU.

- 2 OS OES MWY NA THRI OHONOC HYN YN CHWARAE, YNA GALLWCH YCHWANEGU CALDERSTONES, YNYSOEDD Y SIANEL A LLYDAW.

- 4 RHOWCH DRI 'TOCYN STORM' I BOB UN CHWARAEWR - CREGYN NEU DDARNAU O FROC MÔR.

- 5 MAE PAWB YN CYCHWYN YN YNYS MÔN, GAN GYMRD EU TRO YN SYMUD UN CAM AR Y TRO AR DRAWS Y MÔR I'R LLEOLIADAU ERAILL. Y NOD YW CYRRAEDD Y MANNAU NEWYDD HYN, CASGLU CYMAINT O GERRIG AG Y GALLWCH A'U CLUDO'N DDIOGEL I'CH TWMPTH YN YNYS MÔN.

- 6 OND GALL Y MÔR FOD YN BERYGLUS! YN HYTRACH NA CHYMRD CAM, GALLWCH DDEFNYDDIO UN O'CH 'STORMYDD'. YMESTYNNWCH ALLAN A RHOWCH DOCYN STORM O FLAEN UN O'R CHWARAEWR ERAILL - MAE'N COLLI TRO! OS RHOWCH DDAU DOCYN STORM O'I FLAEN RHAID IDDO OLLWNG UNRHYW GERRIG SYDD GANDDO. OS NA ALLWCH YMESTYN AT CHWARAEWR ARALL NI ALLWCH CHWARAE STORM.

- 7 UNWAITH Y BYDD Y CERRIG I GYD WED! EU CLUDO YN ÔL I YNYS MÔN, Y CHWARAEWR SYDD Â'R NIFER MWYAF O GERRIG SY'N ENNILL!

LLONGYFARCHIADAU/ RYDYCH WEDI LLWYDDO YN EICH TAITH I YMYL Y BYD NEOLITHIG GAN DDOD Â SYNIADAU NEWYDD A RHWYSIG YN ÔL I'CH PENTREF YN YNYS MÔN!



Y Ddrysfya Ddarganfod!

DYMA DDRYSFA SY'N SEILIEDIG AR UN O'R CERRIG A NADDWYD Y TU MEWN I FARCLODIAD Y GAWRES. MAE MWY NAG UN FFORDD I GYRRAEDD Y PEN AFALL - OND CEISIWCH GASGLU CYMAINT AG Y GALLWCH O GROCHENWAITH NEOLTHIG AR Y DAITH. MAE DEG O BOTIAU I'W CANFOD - FAINT ALLWCH CHI EU CASGLU HEB DORRI DRWY UNRHYW LINELL?

Cychwyn




Diwedd

FAINT GAWSOCH CHI?

DILYN y STORI!

MAE LLAWER MWY O
SAFLEOEDD CYNHANESYDDOL
I'W DARGANFOD AR YNYS MÔN!

EWCH AR ANTUR I SAFLE
LLYN CERRIG BACH,
AC EWCH I YMWELD Â
THOMEN **BRYN CELLI**
DDU LLE MAE'R
CERRIG YN ANEUL AT
HIRDDYDD YR HAF!



LAWRLWYTHWCH Y COMICS O WEFAN CADW
WWW.CADW.LLYW.CYMRU

ORIEL YNYS MÔN AR Y B5111,
RHOSMEIRCH, LLANGFNI, LL77 7TQ
01248 724444
10.30AM - 5PM.

A DILYNWCH HANES YNYS
MÔN YN ORIELAU'R AMGUEDDFA, LLE GALLWCH WELD
CROCHENWAITH NEOLITHIG A CHREIRIAU CERRIG, ARFAU O'R OES
EFYDD A HYD YN OED COPI O'R GADWYN GAETHWEISION O LYN CERRIG BACH!

A CHOFIWCH FYND AM DRO I WELD RHAI O'R SAFLEOEDD ANHYGOEL ERAILL A
NODWYD AR Y MAP AR Y CLAWR ÔL. GALLWCH DDYSGU RHAGOR AM GYNHANES
RHYFEDDOL YNYS MÔN AC AM FYWYD TELUWOEDD OES YR HAERN YNG NGHYTIAU'R
GWYDDELOD AR **FYNYDD TWR**, **CAER LÊB** A **RHENTREF DIN LLIGWY**, NEU EWCH I
FELYN LLYNNON I WELD Tŷ CRWN HANESYDDOL MAINT LLAWN O'R OES HAERN SYDD
WEDI EI ADEILADU YNO!



Gwreiddiau
Origins

Llwybrau morol
i'r gogledd i
Orkney

Map o'r Ynys yn
dangos y prif safleoedd
cynhanesyddol.

A:
Trefi ● Amgueddfeydd, ac ati
Prif ffyrdd

Dwy filltir

Llwybrau dros
y tir i'r de a'r
dwyrain i weddill
Cymru
a Lloegr
ac Ewrop

Gogledd
Cymru

A5025

B5112

MAEN HIR
TREGWHELYDD

CABR Y TWR
CYTIAUR
GWYDDELOD
Mynydd TWR

MAEN HIR
TY MAWR

Caerdybi

SIAMBR
GLADDU
TREFIGNATH

A55

SAFLE LLYN
CERRIG BACH

Rhosneigr

Llwybrau
morol i'r de a'r
gorllewin tuag at
Iwerddon

Barclodiad y Gawres

SIAMBR GLADDU
LLŪGWY

SAFLE CYTIAUR
DIN LLŪGWY

Moelfre

SIAMBR GLADDU
PRESADDFEED

B5110

B5104

SIAMBR GLADDU
TY NEWYDD

A5

Llangefni

Oriel Ynys Môn

SIAMBR GLADDU
DIN DRYFOL

B5109

A5025

SIAMBR GLADDU
BRYN CELLI DDU.

Porthaethwy

Pias Newydd

A4080

SIAMBR GLADDU
BODOWYR

SAFLE CAÊR
LEB

CASTELL
BRYN
GWYN

Gogledd
Cymru